Yn ystod 2024, cofnododd safle monitro awtomatig Arberth grynodiadau PM_{2.5} ymhell islaw targed y Strategaeth Ansawdd Aer o 20 µg/m³ ar gyfer PM_{2.5}. Mae'r crynodiadau cymedrig blynyddol wedi aros yn sefydlog ac yn gyson dros y pum mlynedd diwethaf. Nid oes amcan Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol ar gyfer crynodiadau PM_{2.5} ond mae canlyniadau monitro yn parhau i fod yn gyson isel.

2.3.4 Osôn (O₃)

Roedd nifer y crynodiadau O₃ cymedrig wyth awr a gofnodwyd yn lleoliad monitro awtomatig Arberth yn 2024 ac a oedd yn fwy na 100 µg/m³ yn 37. Nid oes amcan Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol ar gyfer crynodiadau O₃. Fodd bynnag, mae hyn yn fwy na'r amcan ansawdd aer cenedlaethol yn y DU o beidio â mynd y tu hwnt i 100 µg/m³ yn fwy na deg gwaith y flwyddyn.

2.3.5 Sylffwr Deuocsid (SO₂)

Mewn perthynas ag amcanion ansawdd aer SO₂ ac amcanion cysylltiedig Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol, mae gorsaf fonitro awtomatig Arberth wedi nodi casgliad data ar gyfer 2024 o 96% ar gyfer SO₂ gyda chategori band llygredd aer isel ac nid oes unrhyw achosion o fynd y tu hwnt i unrhyw un o'r amcanion perthnasol wedi digwydd.

2.4 Crynodeb o Gydfymffurfedd ag Amcanion y Strategaeth Ansawdd Aer yn 2024

Mae Cyngor Sir Penfro wedi archwilio canlyniadau'r gwaith monitro yn y sir. Mae'r crynodiadau i gyd ymhell islaw'r amcanion, felly nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.

Mae Cyngor Sir Penfro yn bwriadu gweithredu'r broses ddirymu ar gyfer ardaloedd rheoli ansawdd aer Hwlfordd a Phenfro oherwydd cydfymffurfedd cyson â'r lefel ofynnol o ≤36 µg/m³ ar gyfer NO₂ yn yr ardal rheoli ansawdd aer.

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnal nifer o diwbiau tryledu "arnofiol", rhifau PCC 37, 38 a 39, ar gyfer monitro NO₂ ar hap. Hynny yw, nid oes lleoliad monitro penodol ond, pan fydd ardal o bryder yn cael ei nodi gan drigolion lleol a/neu'r awdurdod hwn, gellir cyflwyno'r tiwbiau i'r ardal o bryder i gychwyn asesiad cychwynnol i ddarganfod a oes angen mesurau monitro pellach. Hyd yn hyn, lle mae'r strategaeth hon wedi'i defnyddio, ni chanfuwyd unrhyw

ardaloedd a nodwyd lle mae'r amlygiad wedi mynd y tu hwnt i'r amcan rheoli ansawdd aer perthnasol a gellir rhoi cadarnhad o hyn i'r partïon dan sylw wedyn.

3 Datblygiadau Lleol Newydd

Mae Cyngor Sir Penfro yn cadarnhau nad oes unrhyw ddatblygiadau lleol newydd na datblygiadau lleol sydd wedi'u nodi'n ddiweddar a allai gael effaith andwyol ar ansawdd aer o fewn ardal yr awdurdod lleol o fewn 2024.

Mae Cyngor Sir Penfro yn cadarnhau bod y canlynol wedi cael eu hystyried:

- Ffynonellau traffig ffyrdd
- Ffynonellau trafndiaeth eraill
- Ffynonellau diwydiannol
- Ffynonellau masnachol a domestig
- Datblygiadau newydd gyda ffynonellau sy'n ffoi neu sydd heb eu rheoli

3.1 Ffynonellau Traffig Ffyrdd (a Dulliau Teithio Eraill)

Nid oes unrhyw ffynonellau traffig ffyrdd newydd a dulliau teithio eraill sy'n destun pryder wedi'u nodi ers yr adroddiad diwethaf ar gynnydd o ran ansawdd aer.

3.2 Ffynonellau Diwydiannol / Ffynonellau sy'n Ffoi neu Heb eu Rheoli / Ffynonellau Masnachol

Ni nodwyd unrhyw ffynonellau diwydiannol, ffynonellau sy'n ffoi neu heb eu rheoli a/neu ffynonellau masnachol newydd sy'n peri pryder ers yr adroddiad diwethaf ar gynnydd o ran rheoli ansawdd aer. Wedi dweud hynny, mae Tîm Rheoli Llygredd Masnachol Is-adran Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir Penfro yn gweithredu polisi dim goddefgarwch ar gyfer digwyddiadau lle mae gweithgaredd busnes masnachol yn defnyddio tân fel dull o waredu gwastraff. Mae camau gorfodi wedi cael eu defnyddio a byddant yn parhau i gael eu defnyddio lle canfyddir bod gweithgareddau o'r fath yn digwydd yn ogystal â gosod amodau ar unrhyw geisiadau cynllunio yr ymgynghorir arnynt lle gall gweithgaredd o'r fath ddigwydd, e.e. datblygiadau adeiladu a safleoedd adeiladu cysylltiedig ac ati, er mwyn sicrhau bod iechyd y cyhoedd, amwynderau lleol a'r amgylchedd yn cael eu diogelu rhag yr effeithiau andwyol o allyriadau sy'n gysylltiedig â llosgi deunyddiau gwastraff.

3.3 Ffynonellau Eraill

Mae Cyngor Sir Penfro yn cadarnhau nad oes unrhyw ddatblygiadau lleol newydd na rhai sydd newydd eu nodi a allai gael effaith ar ansawdd aer o fewn ardal yr awdurdod lleol.

Mae Cyngor Sir Penfro yn cadarnhau bod y canlynol wedi cael eu hystyried:

- Ffynonellau traffig ffyrdd
- Ffynonellau trafndiaeth eraill
- Ffynonellau diwydiannol
- Ffynonellau masnachol a domestig
- Datblygiadau newydd gyda ffynonellau sy'n ffoi neu sydd heb eu rheoli

4 Polisiâu a Strategaethau sy'n Effeithio ar Lygredd a Gludir yn yr Aer

4.1 Strategaeth Ansawdd Aer Leol / Ranbarthol

Mae Cyngor Sir Penfro yn darparu adroddiadau blynyddol i Strategaeth Newid Hinsawdd Cymru i gynorthwyo wrth asesu targedau lleihau allyriadau penodol i sectorau, yn benodol allyriadau ynni a/neu nwyon tŷ gwydr o'r sector cyhoeddus yng Nghymru mewn perthynas â'r canlynol:

- Stoc dai'r awdurdod
- Adeiladau annomestig yr awdurdod
- Cerbydau fflyd a darpariaethau trafndiaeth yr awdurdod

Mae'r rhain yn cwmpasu allyriadau o ddefnydd ynni mewn adeiladau, ynghyd ag allyriadau ledled y gymuned o dai yn y sector preifat, teithiau gan y fflyd a theithio busnes. Caiff y data ei gasglu a'i ddychwelyd fel a ganlyn:

- Gwybodaeth am gyflenwyr cyfleustodau
- Datganiadau blynyddol Llywodraeth Cymru
- Datblygiadau cynlluniau effeithlonrwydd ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon
- Arolygon blynyddol
- Adrodd ar gynlluniau busnes mewnol
- Datganiadau gan reolwyr safle

Mae dangosyddion adrodd eraill i gynorthwyo datblygu strategaeth fel a ganlyn:

- Dangosydd Strategol Cenedlaethol EEF/002a (NS18a) (NSPI19) Llywodraeth Cymru ar gyfer gostyngiad canrannol mewn allyriadau carbon yn stoc gyhoeddus annomestig y cyngor
- Dangosydd lleol mewnol HC HC2 ar gyfer canran y gostyngiad mewn allyriadau carbon yn stoc gyhoeddus annomestig y cyngor ers 2003
- Dangosydd Strategol Cenedlaethol EEF/002bi (NS18bi) Llywodraeth Cymru ar gyfer gostyngiad canrannol mewn defnydd ynni yn y stoc dai
- Adrodd ar allyriadau trafndiaeth

Yn 2014, cafodd awdurdodau lleol wybod gan Lywodraeth Cymru fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi cychwyn achos torri rheolau yn ffurfiol yn erbyn y DU am dorri gwerthoedd terfyn nitrogen deuocsid o dan Gyfarwydddeb Ansawdd Aer yr UE 2008/50.

Cwblhaodd Cyngor Sir Penfro, ynghyd â'r holl awdurdodau lleol, daflen gofnodi yn ôl y gofyn i gynorthwyo wrth ddatblygu cynllun ansawdd aer cenedlaethol i ddatrys lefelau gormodol o nitrogen deuocsid.

Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai ceir a faniau petrol a diesel newydd yn cael eu dileu'n raddol erbyn 2040 mewn ymgais i fynd i'r afael â llygredd aer, gyda chronfa o £255 miliwn i helpu cynghorau i fynd i'r afael ag allyriadau o gerbydau diesel fel rhan o becyn gwariant gwerth £3 biliwn ar ansawdd aer. Nod Plaid Cymru yw rhoi'r gorau i werthu ceir a faniau petrol a diesel newydd yng Nghymru erbyn 2027.

4.2 Polisiâu Cynllunio Ansawdd Aer

Mae Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Ceredigion a Chyngor Sir Powys wedi datblygu a chyhoeddi dogfen "Ansawdd Aer Canolbarth a Gorllewin Cymru: Canllaw i Ddatblygwyr" yn 2012. Dogfen gyfeirio yw hon a fwriadwyd i'w defnyddio gan ddatblygwyr a chynghorwyr a allai fod yn rhan o asesu ansawdd aer mewn datblygiadau arfaethedig. Mae'r ddogfen hon yn manylu ar yr wybodaeth sydd ei hangen ar yr awdurdod cynllunio lleol er mwyn asesu yn gywir effaith cais cynllunio ar ansawdd aer. Diweddarwyd y ddogfen hon ddiwethaf yn 2012.

Mae'r canllaw yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Llygryddion a reoleiddir o dan gyfundrefn Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol, yn ogystal â PM_{2.5}
- Effaith allyriadau traffig
- Effaith allyriadau o foeleri biomas
- Asesu a rheoli effeithiau llwch yn ystod gwaith adeiladu

Lle mae datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol sylweddol ar ansawdd aer yn yr ardaloedd cyfagos neu lle mae mewn ardal lle mae ansawdd aer gwael eisoes, mae'r broses gynllunio yn ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiad ansawdd aer. Yn ogystal, bydd angen mesurau i leihau unrhyw effeithiau andwyol hefyd.

Mae'r canllawiau hefyd yn ceisio rhoi cyngor ar ddisgrifio effeithiau ansawdd aer ac asesu eu harwyddocâd.

Argymhellir yn gryf fod deialog rhwng y datblygwyr, cynllunwyr a swyddogion rheoli llygredd yn dechrau cyn gynted â phosibl. Gall methu â darparu gwybodaeth ategol ddigonol gyda'r cais cynllunio arwain at oedi sylweddol yn y broses gynllunio, neu gall yr awdurdod cynllunio lleol wrthod caniatâd cynllunio.

4.3 Cynlluniau a Strategaethau Trafnidiaeth Lleol

Cydgynllun Trafnidiaeth ar gyfer De-orllewin Cymru 2015–2020

https://www.wgsb.wales/media/4065/joint_ltp_300115_cy.pdf?v=20170627002133

yw'r cynllun trafndiaeth lleol. Mae hefyd yn manylu ar brosiectau a dyheadau tymor canolig a hirdymor sy'n ymestyn hyd at 2030.

Bwriad y cynllun trafndiaeth lleol yw "gwella trafndiaeth a mynediad o fewn y rhanbarth a thu hwnt i hwyluso adfywio economaidd, lleihau amddifadedd, a chefnogi datblygiad a defnydd dulliau teithio cynaliadwy ac iachach". Y prif amcanion yw fel a ganlyn:

1. Gwella effeithlonrwydd a dibynadwyedd symud pobl a nwyddau o fewn a thu hwnt i Dde-orllewin Cymru er mwyn cefnogi twf economaidd yn Ninas-Ranbarth Bae Abertawe.
2. Gwella mynediad i bawb at ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau, gan gynnwys cyflogaeth a busnes, addysg a hyfforddiant, gofal iechyd, twristiaeth a gweithgareddau hamdden.
3. Gwella cynaliadwyedd trafndiaeth drwy wella ystod ac ansawdd opsiynau trafndiaeth, gan gynnwys y rhai sy'n gwella iechyd a llesiant, a'r ymwybyddiaeth ohonynt.
4. Gwella integreiddio rhwng polisïau, darpariaeth gwasanaethau a dulliau teithio yn Ne-orllewin Cymru.
5. Gweithredu mesurau a fydd yn amddiffyn ac yn gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig ac yn lleihau effaith andwyol trafndiaeth ar iechyd a newid hinsawdd.
6. Gwella diogelwch ar y ffyrdd a diogelwch personol yn Ne-orllewin Cymru.

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin wedi cael mandad gan Lywodraeth Cymru i gynhyrchu cynllun trafndiaeth rhanbarthol ar gyfer y rhanbarth, yn unol â Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 ac i ategu Llwybr Newydd: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru (2021).

Bydd y cynllun trafndiaeth rhanbarthol newydd yn disodli'r cydgynllun trafndiaeth lleol a ysgrifennwyd yn 2015, ac yn dangos sut y bydd strategaeth Llwybr Newydd yn cael ei

chyflawni yn y rhanbarth. Bydd y cynllun newydd yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 2025 a 2030. Mae'r cynllun ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd ac wedi cwblhau'r cyfnod ymgynghori. Mae cyflwyno'r cynllun trafndiaeth rhanbarthol terfynol wedi'i raglennu ar gyfer diwedd 2025.

4.4 Cynlluniau a Strategaethau Teithio Llesol

Mae Cyngor Sir Penfro yn rhoi gwybodaeth am gynlluniau teithio llesol sydd ar waith ar hyn o bryd ar ei wefan. Mae'r rhain yn bwysig ar gyfer gweithgareddau llwyddiannus ar y cyd i hyrwyddo ffyrdd o fyw iach ochr yn ochr â lleihau effeithiau negyddol traffig ar gymdogaethau a chymunedau.

Mae Cyngor Sir Penfro yn cymryd rhan mewn mentrau Diwrnodau Aer Glân sy'n cynnwys camau i ysgolion lleol atal segura, gan gynnwys darparu baneri i'w harddangos y tu allan i ysgolion i gynghori ac addysgu gyrwyr sy'n cludo plant i'r ysgol. Darperir manylion drwy wefan yr awdurdod. Mae disgyblion yn arwain prosiect i annog rhieni i ddiffodd peiriannau ceir yn lleoliadau ysgolion.

4.5 Amcanion Llesiant yr Awdurdod Lleol

Mae gwybodaeth am gynllun llesiant ac amcanion llesiant Cyngor Sir Penfro ar gael ar ei wefan: [Cynllun Llesiant – Cyngor Sir Penfro](#). Mae hwn yn nodi sut y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydweithio i wella llesiant pobl a chymunedau yn Sir Benfro, nawr ac yn y dyfodol.

4.6 Cynlluniau a Strategaethau Seilwaith Gwyrdd

Mae cynlluniau seilwaith gwyrdd Cyngor Sir Penfro ar gael ar ei wefan [Seilwaith Gwyrdd – Cyngor Sir Penfro](#). Bwriad y rhain yw arwain gwelliannau seilwaith gwyrdd o fewn aneddiadau, i'w defnyddio gan gyrff y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

4.7 Strategaethau Newid Hinsawdd

Mae strategaethau newid hinsawdd Cyngor Sir Penfro ar gael ar ei wefan: [Cynllun Prosiectau: Ymaddasu i Newid yn yr Hinsawdd – Cyngor Sir Penfro](#). Bwriad y cynllun yw amlinellu'r gwaith y mae Cyngor Sir Penfro wedi'i wneud ar hyn o bryd i'w lywio tuag at ddod yn garbon sero net erbyn 2030.

5 Casgliad a Chamau Gweithredu Arfaethedig

5.1 Casgliadau o Ddata Monitro Newydd

Mae'r data monitro NO₂ goddefol o 2024 yn dangos bod 41 allan o'r 45 lleoliad monitro wedi nodi gostyngiad mewn crynodiadau o 2023, gyda gostyngiad cyfartalog o 1.4 µg/m³. Mae pob crynodiad NO₂ cymedrig blynyddol wedi cydymffurfio ag amcan cymedrig blynyddol y Strategaeth Ansawdd Aer ar gyfer NO₂ ac yn parhau i fod islaw amcan y strategaeth.

Mae monitro crynodiadau NO₂, PM₁₀ a PM_{2.5} yng ngorsaf fonitro awtomatig Arberth yn parhau i adrodd am gymedrau blynyddol ymhell islaw amcanion cymedrig blynyddol y Strategaeth Ansawdd Aer ar gyfer crynodiadau NO₂, PM₁₀ a PM_{2.5} (2 µg/m³, 10 µg/m³ a 6 µg/m³ yn y drefn honno) ac amcanion tymor byr SO₂ y Strategaeth Ansawdd Aer. O ran amcan tymor byr y Strategaeth Ansawdd Aer ar gyfer NO₂, lle na ddylai'r lefel fod yn uwch na 200 µg/m³ am fwy na 18 gwaith y flwyddyn, ac amcan y Strategaeth Ansawdd Aer ar gyfer PM₁₀, lle na ddylai fod mwy na 35 crynodiad cymedrig 24 awr sy'n fwy na 50 µg/m³, nid adroddwyd am unrhyw achosion o fynd y tu hwnt i'r terfynau ar gyfer y ddau lygrydd yn 2024. Mae gorsaf fonitro awtomatig Arberth yn safle cefndir gwledig sy'n adrodd am grynodiadau isel ymhlith yr holl lygryddion a disgwylir iddi fodloni amcanion y Strategaeth Ansawdd Aer ar adrodd blynyddol.

5.2 Casgliadau sy'n Ymwneud â Datblygiadau Lleol Newydd

Bydd gweithredu a datblygu strategaethau lleol yn barhaus, fel y manylir yn Nhabl 1.2, yn parhau i gynorthwyo i leihau crynodiadau ac allyriadau llygryddion. Mae'r cyngor hefyd yn parhau i ofyn am asesiadau ansawdd aer ar gyfer ceisiadau cynllunio newydd lle bo'n berthnasol, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddirywiad sylweddol yn ansawdd yr aer neu nad oes unrhyw dderbynyddion sensitif newydd yn cael eu cyflwyno i ardaloedd lle mae ansawdd aer eisoes yn wael.

5.3 Casgliadau Eraill

Mae'r rhwydwaith tiwbiau tryledu presennol yn Sir Benfro yn caniatáu i'r cyngor fonitro'n agos ardaloedd problemus a helpu i amlygu meysydd sy'n peri pryder. Mae'r rhwydwaith monitro yn 2024 wedi dangos cydymffurfedd ar draws pob lleoliad monitro. O ran y blynyddoedd 2020 a 2021 yn dilyn COVID-19 ar gyfer y ddwy ardal ansawdd aer a ddynodwyd, pan effeithiwyd ar lefelau traffig, mae Hwlfordd wedi nodi pedair blynedd o

gydymffurfedd, ac mae Ardal Ansawdd Aer Penfro wedi nodi tair blynedd o gydymffurfedd â'r trothwy hyder o $36 \mu\text{g}/\text{m}^3$. Felly, mae'r cyngor yn bwriadu dirymu'r ardaloedd rheoli ansawdd aer ar gyfer ardaloedd rheoli ansawdd aer Hwlfordd a Phenfro.

5.4 Camau Gweithredu Arfaethedig

Bydd Cyngor Sir Penfro yn parhau i fonitro crynodiadau nitrogen deuocsid (NO_2) yn weithredol ledled y sir, gan adolygu a diweddarau'r rhwydwaith monitro tiwbiau tryledu yn ôl yr angen i sicrhau casglu data cadarn. Ar sail gwelliannau cynaliadwy yn ansawdd aer lleol a hyder uchel y bydd cydymffurfedd parhaus yn y dyfodol â'r amcan NO_2 cymedrig blynyddol, mae'r cyngor yn bwriadu dirymu ardaloedd rheoli ansawdd aer Hwlfordd a Phenfro.

Cyfeiriadau

- Adroddiad Cynnydd Cyngor Sir Penfro 2024
- Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol, Canllawiau Technegol LAQM.TG(22) 2022
- Lawrlwythiadau data o Fforwm Ansawdd Aer Cymru
- Ansawdd Aer Canolbarth a Gorllewin Cymru: Canllaw i Ddatblygwyr (2012)
- Cydgynllun Trafnidiaeth De-orllewin Cymru 2015–2020
- Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol yng Nghymru: Canllawiau Polisi (Mehfin 2017)

Atodiadau

Atodiad A: Canlyniadau Monitro Misol Tiwbiau Tryledu

Atodiad B: Crynodeb o Reoli Ansawdd Aer yn Lleol

Atodiad C: Sicrhau/Rheoli Ansawdd Data Monitro Ansawdd Aer

Atodiad D: Mapiau Ffiniau Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer

Atodiad A: Data Sicrhau / Rheoli Ansawdd

Tabl A.1 – Canlyniadau Misol Llawn Tiwbiau Tryledu ar gyfer 2024 (µg/m³)

Cyfeirnod y Tiwb Tryledu	Cyfeirnod Grid X yr Arolwg Ordnans (Dwyreiniad)	Cyfeirnod Grid Y yr Arolwg Ordnans (Gogleddiad)	Ionawr	Chwefror	Mawrth	Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr	Cymedr Blynyddol: Data Crai	Cymedr Blynyddol: Wedi'i Nodi'n Flynyddol a'i Addasu ar gyfer Tuedd	Cymedr Blynyddol: Pellter wedi'i Gywiro i'r Amlygiad Agosaf	Sylwadau
PCC1	195629	215655	24.7	16	16.2	15.9	15.5	13.9	14.8	11.3	19.4	21.7	23.3	16.3	17.4	14.6		
PCC2	195574	215704	27.1	24.1	23.1	20.2	19.5	17.6	18.9	20.1	22.2		27.3	20.1	21.8	18.3		
PCC3	195474	215661	26.2	22.1	20.4	17.5	15.6	14.9	15.6			22.1		20.6	19.5	16.4		
PCC4	195402	215634	29.5	30.9	22.4	25.5	25.5	26.5	25.8	24.1			26.5	27.2	26.4	22.2		
PCC5	195312	215605	31.8	33.3	30.5	28.7	30.5		29.1	25.4	28.6	29.3	31	28.2	29.7	24.9		
PCC6	195294	215591	33	33.3	30.7	26.1	26.3	23.3	25.4			29.6	30.4	26.8	28.5	23.9		
PCC7	195203	215544	31.1	32.8		28.8	31.9		28.5	25.7	29.6	35	33.1	27.6	30.4	25.5		
PCC8	195159	215494	29.7	24.6	27.9	22.7	22.7	16.4	19.8	15.9	25	28.7	30.8		24	20.2		
PCC9	195267	215603	25.3	22.4	19.6	16.4	15.6	14.2		10	15.4	13.8	10.8	12.6	16	13.4		
PCC10	195177	215606	18.4	16.2	16.2	12.3	10.7	9.5	10.7	7	9.2	12.2	14.3	9.6	12.2	10.2		
PCC11	195143	215464	28.6	22.2	26.8	20.7	20.5	15.8		15.5	22.4	25.6	29.2	21.1	22.6	19		
PCC12	195110	215394				19.4	17.3	17.7	18	17.2	18.7		25.7	17.6	19	15		Wedi'i flynyddoli; Atodiad C
PCC13	195101	215357	30.4	22.7	22.7		19.3	15	17.3	14.7	23.4	25.6	27.8	21.8	21.9	18.4		
PCC14	195028	215269	28.6	21.4	20.9	17.5		13.9	16.1	14.2	19	22	23.9	20.7	19.8	16.6		
PCC15	194998	215255	33.1	25.3	24.1	20	20.1	17.4	20.1	18.7	21.2	25.5	34	26.4	23.8	20		
PCC16	195006	215208	21.2	16.2	15.1	13.4	12.7	11	12.4	11.2	12.5	15.6	19.6	14.9	14.7	12.3		
PCC17	194945	215259	31.7	23.1	22.6	21.4	24.3	12.5	20.6	17.6	27.1	29.1	29.5	30.1	24.1	20.2		
PCC18	194937	215254	35.5	29.9	26.2	24.9	27	27.5	27.4	29.1	23.7	22.6	35.1	18.4	27.3	22.9		
PCC19	194936	215268	28.8	18.5	20.3	19.2	19.6	14.9	16.9	14.2	24	29.1	26.1		21	17.6		
PCC20	194922	215263	31.5	33.1	30.2	26.1	26.7	25.7	27.8	25.9	24.2	34.7	32.8	19.4	28.2	23.7		

Cyfeirnod y Tiwb Tryledu	Cyfeirnod Grid X yr Arolwg Ordnans (Dwyreiniad)	Cyfeirnod Grid Y yr Arolwg Ordnans (Gogleddiad)	Ionawr	Chwefror	Mawrth	Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr	Cymedr Blynyddol: Data Crai	Cymedr Blynyddol: Wedi'i Nodi'n Flynyddol a'i Addasu ar gyfer Tuedd	Cymedr Blynyddol: Pellter wedi'i Gywiro i'r Amlygiad Agosaf	Sylwadau
PCC21	194930	215267	19.6	16.8	13	12.2	11.3	10	11.4	11.1	12.2	14.1	24.3	25.2	15.1	12.7		
PCC22	194911	215268	30.7	31.3	30.6	26.9	26.1	25	26	25.2	22.1		30.1	15.8	26.3	22.1		
PCC23	194911	215279	27.1	18.7	19.4	19.7	19.7	16.6	18.5	14.6	20.2	32.1	19.3	23.4	20.8	17.5		
PCC24	194893	215279	30.7	29.2	28.5	23.8	26.5	24	26.5	22.8	25.7	28.2	32.5	19.4	26.5	22.3		
PCC25	194905	215286	26.5	17.1	17.9	18.6	18.1	15.8	17.1	12.8	21.8	33.7		24.4	20.4	17.1		
PCC26	194886	215284	30.9	27.4	27.4	22.1	26.3	24	26.4	23.9	24.5	21.4	34.9	18.6	25.6	21.5		
PCC27	194879	215300	26.9	18.4	18.9	16.7		15.6	17.3	15	20.9	14.6	31.1	16.2	19.2	16.1		
PCC28	194856	215299	21.7	15.1	14.8	14.4	13.9	12.4	14.3	10.8	15.9	22.6	21.5	20.1	16.5	13.9		
PCC29	194901	215345	25.8	20	19.7	17.2		14.7	16		18.2	21.3	23.4	16.4	19.3	16.2		
PCC30	194974	215448	18.2	13.4	12.5	29.1	8.5	7.8	9.3	8.6	10.2	14.2	16.8	11.2	13.3	11.2		
PCC31	194730	214554	32.1	29.4	26.5	9	30.7	30.6	26.3	12.6	18	29.1	22.9	16.4	23.6	19.8		
PCC32	194761	214610	30.7	29.3	24.1	25.2	25.7	23.8	22.3	21.3		19.8	25.4	24.4	24.7	20.7		
PCC33	194774	214465	27.1		20.2	19		14	14.5		31		30.2	25.5	22.7	18.3		Wedi'i flynyddoli; Atodiad C
PCC34	195453	215594	24.2	20.6	16.6	16.6	13.7	14.7	15.2	13.8	18.3	16.7	21.6	19.8	17.6	14.8		
PCC35	195642	215273	15.7	11.2	10.1	7.6	7.9	6.7	7.2		9.9	12.5	13.5	10.1	10.2	8.6		
PCC36	210901	214713	25.5	16.7	19	17.9	20.9	14.5	15.9	12.3	18.6	23.4	18.8	17.5	18.4	15.5		
PCC40	198244	201554	21.5	16.5	14.4	17.7	19.1	19	18.7	16	19.1	17.2	18.6	17.8	18	15.1		
PCC41	198274	201547	24.9	20.2	16	17.7	21.2	19.7	19.8	17.8	20.6		24.7	21.7	20.4	17.1		
PCC42	198333	201549	23	17.6	24.2		22	15	17.2	15.7	18.6	24.1	17	19.3	17.8	15		
PCC43	198364	201502	26.5	27.7	29.1	24.1	26.4	27.1	24.9	27.8	21.9	33.1	26.4	22.9	26.5	22.3		
PCC44	198396	201495	31.4	31.5	35	27.2	29	27.7	28.7	30.8	28.5	31.9	29.8	26.3	29.8	25		
PCC45	198407	201489	39.4	36.8	37.9	33.9	34.9	33.3	34.6	33.7	33	40	31.8	30.5	35	29.4		
PCC46	198460	201464	31.3	35	29.6	27	27.9	29.6	28.1	30	25.6	27.7	29.3	27.2	29	24.4		
PPC47	198548	201419	20.9	19.8	19.1	17.5	21	19.2	18.9	19.1	16.2	19.3	19.5	19.1	19.1	16		

Cyfeirnod y Tiwb Tryledu	Cyfeirnod Grid X yr Arolwg Ordnans (Dwyreiniad)	Cyfeirnod Grid Y yr Arolwg Ordnans (Gogleddiad)	Ionawr	Chwefror	Mawrth	Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr	Cymedr Blynyddol: Data Crai	Cymedr Blynyddol: Wedi'i Nodi'n Flynyddol a'i Addasu ar gyfer Tuedd	Cymedr Blynyddol: Pellter wedi'i Gywiro i'r Amlygiad Agosaf	Sylwadau
PPC48	198869	201299	13.5	10.3	10.4	7.7	9.1	7	7.9	7.8	9.6	11.6	10.2	9.6	9.6	8.1		

- Mae'r holl ddata anghywir wedi'i ddileu o'r set ddata tiwbiau tryledu NO₂ a gyflwynir yn Nhabl A.1.
- Mae blynyddoli wedi'i gynnal lle mae casglu data yn <75% ac yn >25% yn unol ag LAQM.TG22.
- Defnyddiwyd ffactor addasu lleol ar gyfer tuedd.
- Defnyddiwyd ffactor addasu cenedlaethol ar gyfer tuedd.
- Lle bo'n berthnasol, mae data wedi'i gywiro o ran pellter ar gyfer amlygiad perthnasol yn y golofn olaf.
- Mae Cyngor Sir Penfro yn cadarnhau bod holl ddata tiwbiau tryledu 2024 wedi'i uwchlwytho i'r system mewnbynnu data tiwbiau tryledu.

Nodiadau:

Dangosir achosion o fynd y tu hwnt i'r amcan cymedrig blynyddol ar gyfer NO₂ o 40µg/m³ mewn **print trwm**.

Dangosir cymedrau blynyddol NO₂ sy'n fwy na 60 µg/m³, sy'n dynodi achos posibl o fynd y tu hwnt i'r amcan cymedrig un awr ar gyfer NO₂, mewn **print trwm ac wedi'u tanlinellu**.

Gweler Atodiad C am fanylion ar addasu ar gyfer tuedd a blynyddoli.

Atodiad B: Crynodeb o Reoli Ansawdd Aer yn Lleol

5.5 Diben Adroddiad Cynnydd Blynyddol

Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion y broses Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol fel y'i nodir yn Neddf yr Amgylchedd 1995, ac fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021 a chanllawiau cysylltiedig y llywodraeth. Mae'r broses Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol yn gosod rhwymedigaeth ar bob awdurdod lleol i adolygu ac asesu ansawdd aer yn eu hardaloedd yn rheolaidd ac i benderfynu a yw'r amcanion ansawdd aer yn cael eu cyflawni ai peidio. Lle mae lefelau gormodol yn bodoli, neu'n debygol o fodoli, rhaid i'r awdurdod lleol ddatgan ardal rheoli ansawdd aer a pharatoi cynllun gweithredu ansawdd aer o fewn 18 mis i'r dynodiad sy'n nodi'r mesurau y mae'n bwriadu eu rhoi ar waith i gyflawni'r amcanion. Yna rhaid adolygu a diweddarau cynlluniau gweithredu o leiaf bob pum mlynedd; neu os yw awdurdod lleol yn ystyried bod angen cymryd mesurau pellach neu wahanol er mwyn cyflawni safonau ansawdd aer; neu os bydd newidiadau sylweddol i ffynonellau yn digwydd yn eich ardal leol.

Mae adroddiad cynnydd blynyddol yn disodli pob gofyniad adrodd ffurfiol arall ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae ganddo ddiben clir iawn o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd am ansawdd aer, gan gynnwys pa gamau parhaus sy'n cael eu cymryd yn lleol i'w wella os oes angen.

5.6 Amcanion Ansawdd Aer

Mae'r amcanion ansawdd aer sy'n berthnasol i Reoli Ansawdd Aer yn Lleol yng Nghymru wedi'u nodi yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000, Rhif 1940 (Cymru 138), a Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru) 2002, Rhif 3182 (Cymru 298), ac fe'u dangosir yn Nhabl B.1.

Mae'r tabl yn dangos yr amcanion mewn unedau o ficrogramau fesul metr ciwbig $\mu\text{g}/\text{m}^3$ (miligramau fesul metr ciwbig, mg/m^3 ar gyfer carbon monocsid) gyda nifer yr achosion o fod yn uwch na'r terfyn ym mhob blwyddyn a ganiateir (lle bo'n berthnasol).

Tabl B.1 – Amcanion Ansawdd Aer sydd wedi'u Cynnwys mewn Rheoliadau at Ddiben Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol yng Nghymru

Llygrydd	Amcan Ansawdd Aer: Crynodiad	Amcan Ansawdd Aer: Wedi'i Fesur fel	Dyddiad i'w Gyflawni erbyn
Nitrogen Deuocsid (NO₂)	Peidio â mynd y tu hwnt i 200 µg/m ³ yn fwy na 18 gwaith y flwyddyn	Cymedr un awr	31 Rhagfyr 2005
Nitrogen Deuocsid (NO₂)	40 µg/m ³	Cymedr blynyddol	31 Rhagfyr 2005
Deunydd Gronynnol (PM₁₀)	Peidio â mynd y tu hwnt i 50µg/m ³ yn fwy na 35 gwaith y flwyddyn	Cymedr 24 awr	31 Rhagfyr 2010
Deunydd Gronynnol (PM₁₀)	40 µg/m ³	Cymedr blynyddol	31 Rhagfyr 2010
Sylffwr Deuocsid (SO₂)	Peidio â mynd y tu hwnt i 350µg/m ³ yn fwy na 24 gwaith y flwyddyn	Cymedr un awr	31 Rhagfyr 2004
Sylffwr Deuocsid (SO₂)	Peidio â mynd y tu hwnt i 125µg/m ³ yn fwy na thair gwaith y flwyddyn	Cymedr 24 awr	31 Rhagfyr 2004
Sylffwr Deuocsid (SO₂)	Peidio â mynd y tu hwnt i 266µg/m ³ yn fwy na 35 gwaith y flwyddyn	Cymedr 15 munud	31 Rhagfyr 2005
Bensen	16.25 µg/m ³	Cymedr blynyddol rhedegog	31 Rhagfyr 2003
Bensen	5 µg/m ³	Cymedr blynyddol	31 Rhagfyr 2010
1,3-Bwtadien	2.25 µg/m ³	Cymedr blynyddol rhedegog	31 Rhagfyr 2003
Carbon Monocsid	10.0 mg/m ³	Cymedr rhedegog dyddiol uchaf wyth awr	31 Rhagfyr 2003
Plwm	0.25 µg/m ³	Cymedr blynyddol	31 Rhagfyr 2008

Atodiad C: Sicrhau / Rheoli Ansawdd Data Monitro Ansawdd Aer

5.7 Sicrhau / Rheoli Ansawdd Monitro Tiwbiau Tryledu

Cyflenwyd a dadansoddwyd tiwbiau tryledu Cyngor Sir Penfro yn 2024 gan Gradko International Ltd, gan ddefnyddio'r dull paratoi 20% triethanolamin (TEA) mewn dŵr. Mae labordy Gradko wedi'i achredu gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig, ac mae'n cymryd rhan yng nghynllun AIR-PT ar gyfer dadansoddi tiwbiau NO₂ a'r ymarfer cymharu maes blynyddol. Mae'r rhain yn darparu meini prawf perfformiad llym i'w bodloni gan labordai sy'n cymryd rhan, gan sicrhau felly bod crynodiadau NO₂ a adroddir o safon uchel. Mae'r labordy yn dilyn y gweithdrefnau a nodir yn y canllawiau ymarferol a gysonwyd.

Cafodd pob astudiaeth a gydleolwyd gan awdurdodau lleol sy'n defnyddio tiwbiau a gyflenwyd gan Gradko gyda'r dull paratoi 20% TEA mewn dŵr yn 2024 eu graddio fel "da", fel y dangosir gan y canlyniadau crynodeb manwl. Mae'r manylder hwn yn adlewyrchu perfformiad a chysondeb y labordy wrth baratoi a dadansoddi'r tiwbiau, yn ogystal â'r ffordd y cânt eu trin yn y maes wedi hynny. Ystyrir bod gan diwbiau gywirdeb "da" lle mae cyfernod amrywiad tiwbiau tryledu dyblyg neu driphlyg ar gyfer wyth cyfnod monitro neu fwy yn ystod blwyddyn yn llai nag 20%.

Cwblhawyd monitro yn 2024 yn unol â chalendar monitro tiwbiau tryledu 2024, lle cwblhawyd y rhan fwyaf o'r newidiadau o fewn ± 2 ddiwrnod i'r dyddiad penodedig.

Blynyddoli Tiwbiau Tryledu

Mae LAQM.TG(22) yn nodi bod angen blynyddoli ar gyfer unrhyw safle sydd â chasgliad data o lai na 75%, ond yn fwy na 25%. Cofnododd safleoedd monitro goddefol PCC12 a PCC33 gasgliad data o lai na 75%, gyda monitro am gyfnod o wyth mis ar gyfer y ddau safle drwy gydol 2024, felly roedd angen blynyddoli. Cwblhawyd yr asesiad gan ddefnyddio'r fethodoleg a nodir ym Mluch 7.9 yn LAQM.TG(22). Defnyddiwyd dau leoliad monitro cefndir parhaus:

- Caerdydd
- Arberth

Roedd dau safle monitro cefndir parhaus yn berthnasol gan fod gan y ddau >85% o ddata wedi'i gasglu ac felly gellid eu defnyddio ar gyfer blynyddoli. Mae Tabl C.1 yn cyflwyno'r canlyniadau a gafwyd.

Ffactorau Addasu ar gyfer Tuedd Tiwbiau Tryledu

Mae Cyngor Sir Penfro wedi cymhwyso ffactor addasu cenedlaethol ar gyfer tuedd o 0.84 i ddata monitro 2024. Cyflwynir crynodeb o ffactorau addasu ar gyfer tuedd a ddefnyddiwyd gan Gyngor Sir Penfro dros y pum mlynedd diwethaf yn Nhabl C.2.

Ni chynhelir unrhyw astudiaethau cydleoili gan Gyngor Sir Penfro, felly dim ond y ffactor cenedlaethol y gellid ei gymhwyso. Y ffactor cenedlaethol ar gyfer Gradko 20% TEA mewn dŵr, fel y'i cyflwynir yn fersiwn Rhif 04/25 o'r daenlen ffactorau wedi'u haddasu ar gyfer tuedd tiwbiau tryledu (Ffigur C.1), yw 0.84 yn seiliedig ar 27 o astudiaethau.

Ffigur C.1 – Taenlen Ffactorau wedi'u Haddasu ar gyfer Tuedd Tiwbiau Tryledu

National Diffusion Tube Bias Adjustment Factor Spreadsheet						Spreadsheet Version Number: 04/25				
Follow the steps below in the correct order to show the results of relevant co-location studies										This spreadsheet will be updated at the end of June 2025
Data only apply to tubes exposed monthly and are not suitable for correcting individual short-term monitoring periods										LAQM Helpdesk Website
Whenever presenting adjusted data, you should state the adjustment factor used and the version of the spreadsheet										Spreadsheet maintained by the National Physical Laboratory. Original compiled by Air Quality Consultants Ltd.
This spreadsheet will be updated every few months; the factors may therefore be subject to change. This should not discourage their immediate use.										
The LAQM Helpdesk is operated on behalf of Defra and the Devolved Administrations by Bureau Veritas, in conjunction with contract partners AECOM and the National Physical Laboratory.					Spreadsheet maintained by the National Physical Laboratory. Original compiled by Air Quality Consultants Ltd.					
Step 1:		Step 2:		Step 3:		Step 4:				
Select the Laboratory that Analyses Your Tubes from the Drop-Down List		Select a Preparation Method from the Drop-Down List		Select a Year from the Drop-Down List		Where there is only one study for a chosen combination, you should use the adjustment factor shown with caution. Where there is more than one study, use the overall factor ³ shown in blue at the foot of the final column.				
If a laboratory is not shown, we have no data for this laboratory.		If a preparation method is not shown, we have no data for this method at this laboratory.		If a year is not shown, we have no data ⁴ .		If you have your own co-location study then see footnote ⁵ . If uncertain what to do then contact the Local Air Quality Management Helpdesk at LAQMhelpdesk@bureauveritas.com or 0800 0327953				
Analysed By ¹	Method ²	Year ³	Site Type	Local Authority	Length of Study (months)	Diffusion Tube Mean Conc. (Dm) (µg/m ³)	Automatic Monitor Mean Conc. (Cm) (µg/m ³)	Bias (B)	Tube Precision ⁶	Bias Adjustment Factor (A) (Cm/Dm)
Aberdeen Scientific Services	20% TEA in water	2024		Overall Factor ³ (6 studies)				Use	0.76	
Edinburgh Scientific Services	50% TEA in acetone	2024		Overall Factor ³ (2 studies)				Use	0.83	
Glasgow Scientific Services	20% TEA in water	2024		Overall Factor ³ (1 study)				Use	0.82	
Gradko	20% TEA in water	2024		Overall Factor ³ (27 studies)				Use	0.84	
Gradko	50% TEA in acetone	2024		Overall Factor ³ (12 studies)				Use	0.88	
Lambeth Scientific Services	50% TEA in acetone	2024		Overall Factor ³ (2 studies)				Use	0.81	
Milton Keynes Council	20% TEA in water	2024		Overall Factor ³ (1 study)				Use	0.75	
SOCOTEC Didcot	20% TEA in water	2024		Overall Factor ³ (1 study)				Use	0.75	
SOCOTEC Didcot	50% TEA in acetone	2024		Overall Factor ³ (33 studies)				Use	0.78	
SOCOTEC Glasgow	20% TEA in water	2024		Overall Factor ³ (1 study)				Use	0.77	
SOCOTEC Glasgow	50% TEA in acetone	2024		Overall Factor ³ (1 study)				Use	0.79	
Somerset County Council	20% TEA in water	2024		Overall Factor ³ (4 studies)				Use	0.81	
Staffordshire County Council	20% TEA in water	2024		Overall Factor ³ (16 studies)				Use	0.82	
Tayside Scientific Services	20% TEA in water	2024		Overall Factor ³ (1 study)				Use	0.76	

Tabl C.2 – Ffactorau wedi'u Haddasu ar gyfer Tuedd Tiwbiau Tryledu

Blwyddyn	Lleol neu Genedlaethol	Os yn Genedlaethol, Fersiwn o'r Daenlen Genedlaethol	Ffactor Addasu
2024	Cenedlaethol	04/25	0.84
2023	Cenedlaethol	06/24	0.81
2022	Cenedlaethol	03/23	0.83

2021	Cenedlaethol	06/22	0.84
2020	Cenedlaethol	06/21	0.81

Gostyngiad mewn NO₂ gyda Phellter o'r Ffordd

Nid oedd angen cywiro pellter mewn unrhyw leoliadau monitro NO₂ tiwbiau tryledu o fewn Cyngor Sir Penfro yn ystod 2024.

5.8 Sicrhau/Rheoli Ansawdd Monitro Awtomatig

Mae lleoliad monitro awtomatig Arberth yn rhan o'r Rhwydwaith Trefol a Gwledig Awtomatig. Cynhelir graddnodi yn unol â safonau'r Rhwydwaith Trefol a Gwledig Awtomatig a darperir archwiliadau a chynnal a chadw ar y safle gan Ricardo E&E.

Addasu Monitro PM₁₀ a PM_{2.5}

Nid yw'r math o fonitor PM₁₀ a ddefnyddir yng Nghyngor Sir Penfro yn ei gwneud yn ofynnol cymhwyso ffactor cywiro.

Blynyddoli Monitro Awtomatig

Cofnodwyd cipio data o fwy na 75% ymhob lleoliad monitro awtomatig o fewn Cyngor Sir Penfro, felly nid oedd yn ofynnol blynyddoli unrhyw ddata monitro. Yn ogystal, nid oes angen blynyddoli unrhyw safleoedd sydd â chipio data o dan 25%.

Gostyngiad mewn NO₂ gyda Phellter o'r Ffordd


Nid oedd angen cywiro pellter ar unrhyw leoliadau monitro NO₂ awtomatig o fewn Cyngor Sir Penfro yn ystod 2024.

Tabl C.3 – Crynodeb Blynyddol (cyflwynir crynodiadau mewn $\mu\text{g}/\text{m}^3$)


Cyfeirnod y Safle	Ffactor Blynyddoli Arberth	Ffactor Blynyddoli Caerdydd	Ffactor Blynyddoli Cyfartalog	Cymedr Blynyddol y Data Crai	Cymedr Blynyddol wedi'i Flynyddoli	Sylwadau
PCC12	0.769	1.118	0.943	19	17.9	Yn unol â Blwch 7.9 LAQM TG22 Mai 25
PCC33	0.800	1.118	0.959	22.7	21.8	

Atodiad D: Mapiau Ffiniau Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer

Ffigur D.1 – Map o Ffin Ardal Rheoli Ansawdd Aer Hwlfordd



Ffigur D.2 – Map o Ffin Ardal Rheoli Ansawdd Aer Penfro



Rhestr Termau

Byrfodd/Term	Disgrifiad
Cynllun gweithredu ansawdd aer	Disgrifiad manwl o fesurau, canlyniadau, dyddiadau cyflawni a dulliau gweithredu, gan ddangos sut mae'r awdurdod lleol yn bwriadu cyflawni gwerthoedd terfyn ansawdd aer
Ardal rheoli ansawdd aer	Ardal lle mae crynodiadau llygryddion aer yn fwy na / yn debygol o fod yn fwy na'r amcanion ansawdd aer perthnasol. Dynodir ardaloedd rheoli ansawdd aer ar gyfer llygryddion ac amcanion penodol
Adroddiad cynnydd ansawdd aer	Adroddiad cynnydd blynyddol ar ansawdd aer
Rhwydwaith Trefol a Gwledig Awtomatig	Rhwydwaith monitro ansawdd aer y DU
DEFRA	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd	Offeryn sgrinio ansawdd aer a gynhyrchwyd gan Highways England
FDMS	System mesur dynameg hidlo
LAQM	Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol
NO ₂	Nitrogen deuocsid
NO _x	Ocsidau nitrogen
PM ₁₀	Deunydd gronynnol a gludir yn yr aer gyda diamedr aerodynamig o 10 µm (micrometrau neu ficronau) neu lai
PM _{2.5}	Deunydd gronynnol a gludir yn yr aer gyda diamedr aerodynamig o 2.5µm neu lai
Sicrhau/rheoli ansawdd	Sicrhau ansawdd a rheoli ansawdd
SO ₂	Sylffwr deuocsid